



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:

Adroddiad Blynyddol 2015-16

Awst 2016

Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Adroddiad Blynyddol 2015-16

Cynulleidfa

Awdurdodau Lleol yng Nghymru; Tribiwnlys Prisio Cymru a phartïon eraill yn y sector llywodraeth leol a lles sydd â diddordeb yn y maes.

Trosolwg

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn diweddarau'r wybodaeth am weithredu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (y Cynlluniau Gostyngiadau) yng Nghymru yn ystod 2015-16.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Adran Llywodraeth Leol

Yr Is-Adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: CouncilTaxSupport@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

www.gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/council-tax-wales/council-tax-support/council-tax-reduction-schemes-in-wales-interim-report/?skip=1&lang=cy

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
1. Cefndir	4
2. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	5
2.1 Beth yw Diben y Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?	5
2.2 Pwy sydd â hawl i gael Gostyngiad Treth Gyngor?	5
2.3 Sut mae hawl i CTRS yn cael ei chyfrifo?	6
2.4 Beth yw'r meysydd o Ddisgresiwn Lleol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol?	7
3. Ffigyrau llwyth achosion CTRS a gostyngiad ar gyfer 2015-16	8
3.1 Ffigyrau Llwyth Achosion CTRS ar ddiwedd y flwyddyn 2015-16	8
3.2 Ffigyrau Gostyngiad CTRS ar Ddiwedd y Flwyddyn ar gyfer 2015-16	9
3.3 Llwyth achosion CTRS fel canran o Eiddo Atebol	10
4. Tueddiadau a Phatrymau	11
4.1 Nodyn am fethodoleg	11
4.2 Llwyth Achosion Cyffredinol	12
4.3 Dadansoddiad yn ôl Oedran	13
4.4 Llwyth Achosion CTRS yn ôl Statws Incwm	15
4.5 Statws Incwm yn ôl Awdurdod Lleol	16
4.6 Gostyngiad CTRS Cyfartalog yn ôl Statws Incwm	18
4.7 Llwyth Achosion CTRS yn ôl Math o Deulu	20
4.8 Aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol yn ôl statws incwm	21
4.9 Aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol o dan 5 oed yn ôl statws incwm	22
4.10 Llwyth Achosion CTRS yn ôl Band Treth Gyngor	23
5. Apeliadau	
5.1 Tribiwnlys Prisio Cymru	
Atodiad A:	26
Ystadegau Ychwanegol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2015-16	26

Mynegai o Ffigyrau

Ffigwr 1: Llwyth Achosion Agored CTRS Mai - 2013 - Mawrth 2016	12
Ffigwr 2: Newidiadau mewn Llwyth Achosion yn ôl Statws Incwm mis Mawrth 2015-mis Mawrth 2016	15
Ffigwr 3: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Math o Deulu, rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2016	20
Ffigwr 4: Canran o'r Llwyth Achosion Cyffredinol yn ôl Bandiau Tai - mis Mawrth 2016	23
Ffigwr 5: Aelwydydd CTRS yn ôl Band Tai ac Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2016	24

Mynegai o Dablau

Tabl 1: Llwyth Achosion CTRS a Gostyngiad 2015-16 (a)	8
Tabl 2: Achosion CTRS o'u cymharu ag aelwydydd atebol 2015-16	10
Tabl 3: Llwyth Achosion yn ôl Oedran ac Awdurdod Lleol - Mawrth 2016	14
Tabl 4: Statws Incwm yn ôl Awdurdod Lleol - mis Mawrth 2016	17
Tabl 5: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn ôl Statws Incwm ac Awdurdod Lleol	19

Atodiad A - Tablau

Tabl A1: Lefelau Treth Gyngor, 2015-16 (a)	26
Tabl A2: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Awdurdod Lleol, mis Mai 2015 i fis Mawrth 2016 (a)	27
Tabl A3: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Statws Incwm, mis Mawrth 2016 (a)	28
Tabl A4: Aelwydydd â phlentyn dibynnol yn ôl Statws Incwm ac Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2016 (a)	29
Tabl A5: Aelwydydd â phlentyn dibynnol o dan 5 yn ôl Statws Incwm ac Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2016 (a)	30
Tabl A6: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Band Treth Gyngor, mis Mawrth 2016 (a)	31

Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Ebrill 2013, disodlodd Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) Fudd-dal y Dreth Gyngor (CTB) yng Nghymru a chafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo i'r cynlluniau newydd yn awtomatig. Mae'r rheoliadau CTRS wedi'u seilio'n agos ar reolau blaenorol y CTB.

Yn 2013-14, darparodd Llywodraeth Cymru £244m i awdurdodau lleol i'w cefnogi wrth ddarparu'r holl ymgeiswyr cymwys â'u hawliad llawn i gymorth wrth fodloni eu rhwymedigaeth treth gyngor, gan wneud iawn am y diffyg mewn cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU. Darparwyd nawdd cyfatebol ar gyfer 2014-15 a 2015-16.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu diweddariad ar weithrediad CTRS yng Nghymru yn ystod 2015-16, gan gynorthwyo tryloywder mewn maes lle mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddyrannu cyllid sylweddol.

Dyma y mae data diwedd y flwyddyn yn ei ddangos¹:

- Roedd 299,185 aelwyd yng Nghymru'n derbyn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2015-16, o'u cymharu â 307,137 yn 2014-15, gostyngiad o 7,952 o achosion (2.6%).
- Cyfanswm gwerth y gostyngiadau a ddarparwyd trwy CTRS yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw oddeutu £252.5m, o'i gymharu â £250.4m yn 2014-15, cynnydd o oddeutu £2.1m (0.8%).
- Oherwydd bod y llwyth achosion wedi lleihau, mae'r cynnydd yng ngwerth y gostyngiadau bron yn gyfan gwbl o ganlyniad i gynnydd mewn lefelau treth gyngor.

Dyma y mae'r data misol ar achosion 'agored' yn ei ddangos²:

- Derbyniodd 124,065 o aelwydydd pensiynwyr yng Nghymru CTRS ym mis Mawrth 2016, o'u cymharu â 127,098 ym mis Mawrth 2015, sy'n golygu bod y llwyth achosion pensiynwyr wedi gostwng gan 3,033 o achosion (2.4%).
- Derbyniodd 175,089 o aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru CTRS ym mis Mawrth 2016, o'u cymharu â 181,683 ym mis Mawrth 2015, gostyngiad o 6,594 o achosion (3.6%).
- Ym mis Mawrth 2016, roedd gan 69.2% o'r aelwydydd a oedd yn derbyn CTRS basbortau ac roedd 30.8% yn achosion heb basbort.
- Y gostyngiad cyfartalog wythnosol ar gyfer derbynnydd oedd £15.90 yn 2015-16, o'i gymharu â £15.35 yn y flwyddyn flaenorol sy'n gynydd o £0.55 (£28.60 y flwyddyn).
- Roedd 83.9% o aelwydydd a oedd yn derbyn CTRS yn byw mewn eiddo Bandiau A i C ym mis Mawrth 2016, o'u cymharu â 83.7% ym mis Mawrth 2015.

Dyma y mae'r data ar apeliadau yn ei ddangos:

- Derbyniodd Tribiwnlys Prisio Cymru 26 o apeliadau newydd mewn perthynas â CTRS yn ystod 2015-16, o'u cymharu â 39 yn ystod 2014-15.

¹ Mae'r Awdurdodau Lleol yn rhoi ffigurau diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Nid oedd ffigurau 2015-16 wedi'u dilysu ar adeg y cyhoeddiad hwn.

² Ceir data ar achosion 'agored' drwy feddalwedd Datatank Connect. Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg i'w gweld ar dudalen 11.

1. Cefndir

Yn Adolygiad o Wariant 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) ac yn rhoi cyfrifoldeb am ddatblygu trefniadau amnewid i awdurdodau lleol yn Lloegr. Ar yr un pryd, cyhoeddodd gynlluniau i drosglwyddo cyllid i'r gweinyddiaethau datganoledig â'r disgwyliad y byddent yn sefydlu trefniadau newydd yn yr Alban a Chymru. Hefyd cyhoeddwyd y byddai cyllid ar gyfer trefniadau'r dyfodol i ddarparu Cymorth Treth Gyngor yn cael ei drosglwyddo o gyllidebau dan arweiniad galw i gyllidebau sefydlog a'u torri gan 10%.

Ar 1 Ebrill 2013, disodlodd Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) CTB yng Nghymru, a chafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo i'r Cynlluniau newydd yn awtomatig. Roedd y Rheoliadau CTRS newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, wedi'u seilio'n agos ar reolau blaenorol y CTB. Hefyd rhoddwyd rhai meysydd o ddisgresiwn lleol i awdurdodau lleol, gan ganiatáu iddynt ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol.

Darparwyd £244m yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer CTRS ar gyfer 2013-14. Trosglwyddwyd cyllideb sefydlog o £222m oddi wrth Lywodraeth y DU. I alluogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu eu hawliad llawn i gefnogaeth i'r holl ymgeiswyr cymwys, darparodd Llywodraeth Cymru £22m ychwanegol. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu nawdd cyfatebol yn 2014-15 ac yna ymrwymo i gynnal y trefniadau hyn am ddwy flynedd bellach.

Yn ogystal â'r prif Reoliadau sy'n cyflwyno CTRS yng Nghymru, gwnaethpwyd nifer o setiau eraill o reoliadau i sicrhau gweithrediad effeithiol y Cynlluniau – er enghraifft, ymchwilio i dwyll, rhannu gwybodaeth ac apeliadau (mae rhestr lawn wedi'i chynnwys yn [Adroddiad Blynyddol CTRS 2013-14](#)). Er mwyn cynnal y system CTRS, mae rheoliadau'n cael eu gwneud yn flynyddol i uwchraddio'r ffigyrau ariannol a gwneud unrhyw ddiwygiadau gofynnol eraill i ddeddfwriaeth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu data lefel Cymru ar y llwyth achos cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn a gostyngiadau ar gyfer 2015-16. Mae hefyd yn darparu dadansoddiad manwl o'r tueddiadau a phatrymau ers cyflwyno Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Mae gwybodaeth hanesyddol am Fudd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru wedi'i chynnwys yn [Adroddiad Blynyddol CTRS 2014-15](#). Mae **Atodiad A** yr adroddiad hwn yn darparu ystadegau CTRS ychwanegol ar gyfer 2015-16 nad ydynt wedi'u cynnwys yn y prif adroddiad.

2. Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

2.1 Beth yw Diben y Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor?

O 1 Ebrill 2013, mae Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) wedi cymryd lle Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru. Bellach CTRS yw'r mecanwaith y bydd awdurdodau lleol yn darparu cymorth trwyddo i aelwydydd incwm isel wrth fodloni eu rhwymedigaeth treth gyngor.

Mae rheoliadau CTRS wedi'u seilio'r agos ar y system CTB blaenorol ond yn ymgorffori nifer o agweddau wedi'u symleiddio. Mae hyn yn lleihau'r cymhlethdod ar gyfer ymgeiswyr ac awdurdodau lleol.

Nid yw CTRS yn rhan o'r system fudd-daliadau lles. Ers 2013-14, darparwyd £244m yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer CTRS. Nid yw'r cyllid *yn cael ei wario ar yr aelwydydd cymwys*. Mae'n cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i gymryd lle'r incwm treth gyngor buasent fel arall yn ei godi ar aelwydydd sy'n gymwys ac yn gwneud cais am gymorth.

Gall awdurdodau lleol wario'r arian hwn ar unrhyw wasanaethau lleol maent yn darparu. Yr effaith ar gyfer aelwydydd cymwys yw eu bod yn talu bil treth gyngor gostyngedig neu sero. Mewn gwirionedd mae unrhyw gyfeiriadau at gostau neu wariant mewn perthynas â chynlluniau gostwng yn cyfeirio at y swm y mae'r cyfanswm rhwymedigaeth treth gyngor ar gyfer aelwydydd dan sylw wedi'i ostwng ganddo.

2.2 Pwy sydd â hawl i gael Gostyngiad Treth Gyngor?

Cafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo o Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn awtomatig. Fel yn achos CTB, mae aelwydydd sydd â hawl i fudd-daliadau diweithdra sy'n dibynnu ar brawf modd³ yn parhau i fod yn gymwys yn awtomatig i'r hawliad uchafswm i ostyngiad (ar hyn o bryd 100% llai unrhyw ddidyniadau ar gyfer unigolion nad ydynt yn ddibynnol). Ar gyfer aelwydydd eraill, mae hawliad yn cael ei gyfrifo trwy brawf modd sy'n adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd yn flaenorol i gyfrifo hawliad i CTB.

Nid oes gan ymgeiswyr â chynilion mwy na £16,000 hawl i unrhyw gymorth oni bai eu bod yn derbyn Gwarant Credyd Pensiwn.

Mae ceisiadau am Ostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i awdurdodau lleol sy'n gallu darparu manylion llawn y broses gais yn ogystal â manylion unrhyw ddisgresiwn lleol maent yn ei weithredu. Mae cyngor bellach i ddarpar ymgeiswyr hefyd ar gael oddi wrth y [Ganolfan Cyngor ar Bopeth](#).

³ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn a Gwarant Credyd Pensiwn.

2.3 Sut mae hawl i CTRS yn cael ei chyfrifo?

Ar hyn o bryd mae hawl yn cael ei chyfrifo yn yr un ffordd ag o dan system Budd-dal y Dreth Gyngor yn flaenorol. Os yw ymgeisydd yn derbyn '**budd-dal â phasbort**', mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf yn ei rwymedigaeth treth gyngor, sy'n golygu gostyngiad i sero ar hyn o bryd (llai unrhyw ddiidyniadau ar gyfer unigolion nad ydynt yn ddibynnol).

Ymhlith budd-daliadau â phasbort mae:

- **Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm** – sy'n cael ei dalu i'r rheiny sy'n ddi-waith ac ar incwm isel.
- **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm** – sy'n cael ei dalu i'r rheiny ar incwm isel y mae salwch neu anabledd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- **Cymhorthdal Incwm** – sy'n cael ei dalu i'r rheiny ar incwm isel ac yn iau nag oedran pensiwn y wladwriaeth.
- **Credyd Pensiwn (Gwarant Credyd)** – sy'n cael ei dalu i'r rheiny ar incwm isel ac yn hŷn na'r oedran cymhwyso.

Os nad yw ymgeisydd yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau â phasbort hyn, yna caiff ei gategoreiddio fel '**heb basbort**'. I benderfynu a yw'n gymwys ar gyfer gostyngiad CTRS, mae'r aelwyd yn destun i brawf modd.

Mae'r swm wythnosol y bernir y mae ei angen arnynt i fyw arno'n cael ei gyfrifo. Enw hwn yw'r **swm cymwys**, ac mae'n cynnwys dwy gydran:

- Y cyntaf yw'r **lwfans personol** – y swm sylfaenol y mae ei angen ar unigolyn i fyw, sy'n amrywio'n unol ag amgylchiadau'r aelwyd. Er enghraifft, mae'r lwfans ar gyfer pâr â phlant yn uwch nag unigol sengl heb blentyn. Hefyd mae'r lwfansau hyn ar gyfraddau uwch i'r rheiny sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Yr ail gydran yw'r **premiwm** – symiau ychwanegol i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau personol sy'n cynyddu costau byw, fel anabledd neu gyfrifoldebau gofalwr.

Unwaith mae'r swm cymwys wedi'i bennu, mae **lefel incwm** yr ymgeisydd yn cael ei gyfrifo. Mae hyn yn cynnwys incwm gwirioneddol (fel incwm o gyflogaeth, pensiynau a rhai budd-daliadau eraill), ac incwm y tybir ei fod wedi'i ennill o gynilion heb fod yn gysylltiedig â phensiwn dros £6,000 (£10,000 ar gyfer pensiwnwyr). Mae swm bach o enillion hefyd yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo incwm. Er enghraifft, ceir diystyrion safonol ar gyfer pobl sengl ac unig rieni, a rhai uwch ar gyfer grwpiau penodol fel pobl ag anableddau.

Yma mae'r **lefel o incwm yn cael ei gymharu â'r swm cymwys**. Os yw'r swm cymwys yn uwch nag incwm ymgeisydd a gyfrifwyd, mae ganddo hawl i'r gostyngiad mwyaf yn ei rwymedigaeth treth gyngor. Os yw'r incwm yn fwy na'r

swm cymwys, mae'r hawl wythnosol yn cael ei gostwng gan 20c ar gyfer pob £1 o incwm wythnosol dros ben, nes tynnir yr hawl – sef y tapr.

Mae derbynwyr Credyd Cynhwysol (UC) yn cael eu categorio fel rhai heb basbort oherwydd bod eu dyfarniad CTR ar sail y ffigyrau asesiad incwm a gyfrifwyd yn ystod eu cais UC. Wrth i UC barhau i gael ei gyflwyno, bydd y gyfran o achosion CTR sy'n cael eu dosbarthu fel rhai heb basbort yn cynyddu.

2.4 Beth yw'r meysydd o Ddisgresiwn Lleol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol?

O dan y Rheoliadau CTRS, roedd yn rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun ei hun ar gyfer 2015-16 erbyn 31 Ionawr 2015. Mae'r cynlluniau'n cynnwys meysydd o ddisgresiwn lleol i alluogi awdurdodau lleol i ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal lleol. Mae pob awdurdod lleol wedi mabwysiadu cynllun yn briodol ond, petai unrhyw un wedi methu â gwneud hyn, byddai'r cynllun diodyn wedi cael ei orfodi i sicrhau bod aelwydydd cymwys yn parhau i dderbyn cymorth ariannol wrth fodloni eu rhwymedigaeth treth gyngor.

Y meysydd o ddisgresiwn lleol lle gall awdurdod lleol ddewis rhoi darpariaethau ar waith sy'n fwy hael na'r gofynion isafswm a nodwyd yn y rheoliadau yw:

- *Cyfnod gostyngiad estynedig* – gall awdurdodau lleol gynyddu'r cyfnod pan fydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad o dan rai amgylchiadau, y tu hwnt i'r cyfnod pedair wythnos safonol.
- *Pensiynau Anabled Rhyfel a Phensiynau Rhyfel Gwraig Weddw* – mae awdurdodau lleol yn gallu diystyru mwy na'r cyfarwyddyd statudol o £10 o'r arian a dderbyniwyd mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm.
- *Ôl-ddyddio ceisiadau* – mae awdurdodau lleol yn gallu ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol.

Gwnaeth awdurdodau lleol yng Nghymru'r penderfyniadau canlynol ar gyfer eu Cynllun CTRS 2015-16:

- Ni estynnodd unrhyw awdurdod lleol y cyfnod pedair wythnos safonol pan fydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad o dan rai amgylchiadau.
- Dewisodd dau awdurdod lleol ôl-ddyddio ceisiadau y tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol ac roedd ceisiadau wedi'u hôl-ddyddio am gyfnod hyd at chwe mis.
- Dewisodd 22 awdurdod lleol ddiystyru Pensiynau Rhyfel yn llawn wrth gyfrifo incwm, dros y cyfarwyddyd statudol o £10 o'r arian a dderbyniwyd mewn perthynas â phensiynau rhyfel.

Gellir dod o hyd i fanylion cynllun pob awdurdod lleol ar eu gwefannau unigol.

3. Ffigyrau llwyth achosion CTRS a gostyngiad ar gyfer 2015-16

3.1 Ffigyrau Llwyth Achosion CTRS ar ddiwedd y flwyddyn 2015-16

Casglwyd data ar ddiwedd y flwyddyn oddi wrth awdurdodau lleol unigol ar gyfanswm y gostyngiadau a llwyth achosion ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. Mae 'llwyth achosion' yn cyfeirio at *aelwrydd* yn hytrach nag unigolion. Hynny yw, mae rhai achosion yn cyfeirio at unigolion, ac mae achosion eraill yn cyfeirio at bâr neu deulu.

Mae tabl 1 yn dangos mai cyfanswm y llwyth achosion ar gyfer 2015-16 yw 299,185. Mae hyn yn cymharu â 307,137 yn 2014-15. Felly mae'r llwyth achosion wedi gostwng gan 7,952 o achosion (2.6%).

Gwelodd 21 awdurdod lleol ostyngiad mewn llwyth achosion. Yng Nghasnewydd gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn llwyth achosion (3.8%). Powys oedd yr unig awdurdod lle gwelwyd cynnydd, ond roedd hwn yn cyfateb i gynnydd o 6 achos yn unig (0%).

Tabl 1: Llwyth Achosion CTRS a Gostyngiad 2015-16 (a)

		(Llwyth Achosion)		(Gostyngiad)	
		Nifer 2015-16	Newid o 2014-15 (%)	Cyfanswm 2015-16 (£ mil) (b)	Newid o 2014-15 (%)
512	Ynys Môn	6,340	-0.7	5,343	2.1
514	Gwynedd	10,378	-1.7	9,258	1.5
516	Conwy	11,096	-3.0	9,244	0.8
518	Sir Ddinbych	10,421	-2.4	9,645	1.3
520	Sir y Fflint	11,754	-3.5	9,985	-0.3
				10,084	
522	Wrecsam	12,310	-3.7		-1.6
524	Powys	9,714	0.0	8,352	0.7
526	Ceredigion	5,589	-2.0	4,938	0.7
528	Sir Benfro	10,939	-1.7	7,225	-0.7
530	Sir Gaerfyrddin	17,127	-2.3	14,523	-0.2
				19,721	
532	Abertawe	24,559	-3.0		1.2
	Castell-nedd Port			16,802	
534	Talbot	18,222	-1.5		2.1
536	Pen-y-bont ar Ogwr	14,478	-1.9	13,372	2.6
538	Bro Morgannwg	10,114	-2.5	9,190	0.7
540	Rhondda Cynon Taf	26,784	-3.3	22,844	-0.2
		7,026		5,916	
542	Merthyr Tudful		-3.6		-1.1
544	Caerffili	18,974	-2.6	14,042	1.5
545	Blaenau Gwent	9,564	-1.9	8,447	-1.9
546	Torfaen	10,128	-3.3	8,269	1.9
548	Sir Fynwy	6,083	-3.6	5,929	1.9
		14,844		10,696	
550	Casnewydd		-3.8		1.5
552	Caerdydd	32,741	-2.7	28,628	1.6
596	Cymru	299,185	-2.6	252,452	0.8

(a) Ffynhonnell: Ffigyrau Llwyth Achosion Awdurdod Lleol 2015/16 (heb eu dilysu) a 2014/15 (wedi'u dilysu).

(b) Mae ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf ac felly efallai y bydd rhai mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfansymiau fel y dangoswyd.

3.2 Ffigyrau Gostyngiad CTRS ar Ddiwedd y Flwyddyn ar gyfer 2015-16

Mae 'gostyngiad' yn cyfeirio at y swm y mae rhwymedigaeth treth gyngor ar gyfer yr aelwydydd sy'n derbyn CTR yn cael ei ostwng ganddo. Mae cyllid yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i gymryd lle'r incwm treth gyngor buasent fel arall yn ei godi ar aelwydydd sy'n gymwys ac yn gwneud cais am gymorth. Yr effaith ar gyfer aelwydydd cymwys yw eu bod yn talu bil treth gyngor gostyngedig neu sero.

Cyfanswm y gostyngiad ar gyfer aelwydydd yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw £252.5m, o'i gymharu â £250.4 yn 2014-15. Dyma gynnydd o oddeutu £2.1m (0.8%). Yng Nghymru yn 2015-16, cyfanswm y dreth gyngor gros a biliwyd, cyn CTR, oedd £1.32 biliwn. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y gostyngiadau trwy CTR yn cyfrif am oddeutu 19% o gyfanswm refeniw treth gyngor.

Gwelodd 15 awdurdod lleol gynnydd yn eu gostyngiadau CTR. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr gwelwyd y cynnydd mwyaf, 2.6%. Gwelodd saith awdurdod lleol ostyngiad yn y cyfanswm gostyngiad a ddarparwyd i aelwydydd. Ym Mlaenau Gwent gwelwyd y gostyngiad mwyaf, 1.9%. Mae **tabl 1** yn darparu ffigyrau manwl am gyfanswm gostyngiad yn ôl awdurdod lleol.

Mae'r ffigyrau'n datgelu nad yw'r gostyngiad mewn llwyth achosion wedi cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad cyfatebol mewn cyfanswm y gostyngiadau ar gyfer pob awdurdod lleol. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i gynnydd treth gyngor sydd wedi rhoi pwysau tuag i fyny ar y gostyngiad CTR cyfartalog fesul aelwyd.

Mae **tabl A1** yn Atodiad A yn darparu gwybodaeth am gynnydd treth gyngor yn ôl awdurdod lleol ar gyfer 2015-16.

3.3 Llwyth achosion CTRS fel canran o Eiddo Atebol

Mae **tabl 2** yn dangos mai canran y llwyth achosion CTR o'i chymharu â'r holl eiddo sy'n atebol ar gyfer treth gyngor yng Nghymru yw 22.1%. Mae hefyd yn dangos bod hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol. Yn Sir Fynwy mae'r llwyth achosion lleiaf ar gyfer CTRS o'i gymharu â'r holl eiddo atebol (15.2%), ac ym Mlaenau Gwent mae'r mwyaf (30.5%).

Tabl 2: Achosion CTRS o'u cymharu ag aelwydydd atebol 2015-16

		Nifer yr aelwydydd atebol mis Mawrth 2016 (a)	Llwyth Achosion CTRS 2015-16 (b)	Achosion o'u cymharu ag aelwydydd atebol (%)
512	Ynys Môn	33,683	6,340	18.8
514	Gwynedd	57,295	10,378	18.1
516	Conwy	54,590	11,096	20.3
518	Sir Ddinbych	42,943	10,421	24.3
520	Sir y Fflint	65,165	11,754	18.0
522	Wrecsam	57,729	12,310	21.3
524	Powys	61,785	9,714	15.7
526	Ceredigion	32,686	5,589	17.1
528	Sir Benfro	58,590	10,939	18.7
530	Sir Gaerfyrddin	82,774	17,127	20.7
532	Abertawe Castell-nedd Port	105,166	24,559	23.4
534	Talbot	63,320	18,222	28.8
536	Pen-y-bont ar Ogwr	61,210	14,478	23.7
538	Bro Morgannwg	54,540	10,114	18.5
540	Rhondda Cynon Taf	102,178	26,784	26.2
542	Merthyr Tudful	25,958	7,026	27.1
544	Caerffili	76,402	18,974	24.8
545	Blaenau Gwent	31,336	9,564	30.5
546	Torfaen	40,013	10,128	25.3
548	Sir Fynwy	40,057	6,083	15.2
550	Casnewydd	63,318	14,844	23.4
552	Caerdydd	140,205	32,741	23.4
596	Cymru	1,350,943	299,185	22.1

(a) Ffynhonnell: StatsCymru

(b) Ffynhonnell: Ffigyrau Llwyth Achosion Awdurdod Lleol 2015/16 (heb eu dilysu)

4. Tueddiadau a Phatrymau

4.1 Nodyn am fethodoleg

Mae'r ffigyrau yn y bennod hon wedi dod o Datatank Connect ("Datatank"). Offeryn modelu a rhagweld y Datatank, sy'n echdynnu manylion llwyth achosion CTRS agored a gostyngiadau o systemau Budd-daliadau a Refeniw craidd awdurdodau lleol ar sail ciplun misol, ac yn rhagweld y data hwn ymlaen hyd ddiwedd y flwyddyn. Mae Datatank yn darparu data am lwyth achosion cyffredinol a gostyngiad, yn ogystal â darparu gwybodaeth fanwl am y gwahanol fathau o aelwydydd sy'n derbyn CTRS a'r swm cyfartalog o ostyngiad a ddyfarnwyd i'r aelwydydd hyn.


Ceir dau bwynt pwysig i'w nodi. Yn gyntaf, mae Datatank yn darparu gwybodaeth fanwl am **achosion byw yn unig**. Yn wahanol i'r data diwedd flwyddyn, nid yw Datatank yn darparu gwybodaeth am achosion sydd wedi cau yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwahaniaeth yn dibynnu ar y llif ymlaen/i ffwrdd ac mae'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2015-16, y gwahaniaeth rhwng y ffigwr ar ddiwedd y flwyddyn (299,185) a'r llwyth achosion agored ym mis Mawrth 2016 (299,512) yw 327 achos yn unig.

Yn ail, mae Datatank yn darparu gwahanol bwyntiau o gymharu na'r data diwedd y flwyddyn a gynhwyswyd yn y bennod flaenorol. Yn hytrach na darparu dadansoddiad ar newidiadau mewn llwyth achosion cyfartalog a gostyngiad rhwng 2014-15 a 2015-16, mae'r bennod hon yn cymharu llwyth achosion byw o fis Mawrth 2016 a mis Mawrth 2015. Felly mae'r dadansoddiad yn mesur newid dros gyfnod amser ychydig bach yn hwyrach.

4.2 Llwyth Achosion Cyffredinol

Ers cyflwyno CTRS yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2013, mae cyfanswm y llwyth achosion wedi gostwng yn gyson yng Nghymru.

Ffigwr 1: Llwyth Achosion Agored CTRS Mai - 2013 - Mawrth 2016



(a) Ffynhonnell: Datatank. Nid yw llwyth achosion ar gyfer ym mis Ebrill oherwydd y croesbwynt â'r flwyddyn ariannol flaenorol, felly mae amcangyfrif wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y misoedd hyn

Ym mis Mawrth 2016, cyfanswm y llwyth achosion oedd 299,512 ac mae hwn wedi gostwng gan 9,540 (2.4%) ers mis Mawrth 2015.

Mae **tabl A2** yn Atodiad A yn darparu'r ffigyrau llwyth achosion byw misol ar gyfer mis Mai 2015 i fis Mawrth 2016.

4.3 Dadansoddiad yn ôl Oedran

Mae **tabl 3** yn darparu newidiadau allweddol mewn perthynas â llwyth achosion yn ôl oedran ac awdurdod lleol.

Roedd 175,089 o achosion oedran gweithio ym mis Mawrth 2016. Dyma ostyngiad o 6,594 achos o'i gymharu â mis Mawrth 2015 (3.6%). Mae pob awdurdod lleol wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn llwyth achosion oedran gweithio. Ym Merthyr Tudful gwelwyd y gostyngiad mwyaf (8.2%) mewn llwyth achosion oedran gweithio ac ym Mhowys gwelwyd y lleiaf (0.7%).

Mae llwyth achosion oedran gweithio yn parhau i ostwng yn gyson. Efallai bod hyn oherwydd bod pobl yn gadael y system budd-daliadau'n gyfan gwbl, efallai oherwydd gwelliant yn y sefyllfa economaidd cyffredinol a/neu effaith gronol newidiadau diwygio lles.

Mae tabl 3 hefyd yn dangos roedd 124,065 o aelwydydd pensiynwyr yn derbyn CTRS. Dyma ostyngiad 2.4% ers mis Mawrth 2015. Ym Merthyr Tudful gwelwyd y gostyngiad mwyaf (4.7%) ac ym Mhowys gwelwyd y lleiaf (0.2%).

Efallai bod y gostyngiad mewn llwyth achosion oedran pensiwn yn rhannol oherwydd newidiadau yn oedran pensiwn y wladwriaeth i ferched. Oedran pensiwn y wladwriaeth i ddynion yw 65, ond mae wedi bod yn cynyddu'n gyson i ferched o 60 i 65 ers mis Ebrill 2010, i'w wneud yn gyfartal ag oedran pensiwn dynion presennol erbyn mis Tachwedd 2018.

Hefyd efallai y bu gostyngiad yn y gyfran o bensiynwyr sy'n mynd ymlaen i dderbyn CTR. Mae hyn oherwydd bod y carfanau newydd o bensiynwyr yn tueddu i gael incwm uwch ac yn fwy tebygol o fod yn berchen-feddianwyr ac felly'n llai tebygol o fanteisio ar CTR⁴.

⁴ Mae'r arsylwadau hyn wedi'u seilio ar ragolygon llwyth achosion yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Cymru yn nogfen yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012) [Budd-dal y Dreth Gyngor: Rhagolygon a Thybiaethau](#)

Tabl 3: Llwyth Achosion yn ôl Oedran ac Awdurdod Lleol - Mawrth 2016

	Cyfanswm y Llwyth Achosion		Llwyth Achosion Pensiynwyr		Llwyth Achosion Oedran Gweithio	
	Nifer yr Achosion Byw mis Mawrth 2016 (b)	Newid ers mis Mawrth 2015 (%)	Nifer yr Achosion Byw mis Mawrth 2016 (c)	Newid ers mis Mawrth 2015 (%)	Nifer yr Achosion mis Mawrth 2016 (c)	Newid ers mis Mawrth 2015 (%)
Ynys Môn	6,472	-2.0	3,035	-2.4	3,427	-1.9
Gwynedd	10,380	-2.6	5,180	-2.2	5,200	-2.9
Conwy	11,080	-3.3	5,273	-2.9	5,807	-3.6
Sir Ddinbych	10,461	-2.1	4,680	-1.9	5,781	-2.3
Sir y Fflint	11,806	-3.3	5,756	-1.4	6,050	-5.1
Wrecsam	12,370	-4.2	5,451	-2.5	6,908	-5.6
Powys	9,837	-0.4	4,833	-0.2	4,996	-0.7
Ceredigion	5,565	-3.1	2,498	-2.8	3,067	-3.2
Sir Benfro	11,270	-1.7	4,916	-1.7	6,351	-1.7
Sir Gaerfyrddin	17,126	-2.5	7,566	-3.0	9,416	-2.2
Abertawe	24,479	-3.4	9,689	-3.1	14,790	-3.6
Castell-nedd Port Talbot	18,095	-2.5	7,003	-3.5	11,092	-1.9
Pen-y-bont ar Ogwr	14,508	-2.8	5,728	-1.4	8,780	-3.7
Bro Morgannwg	10,108	-2.6	4,093	-1.9	6,015	-3.1
Rhondda Cynon Taf	26,792	-3.4	10,736	-2.8	16,056	-3.9
Merthyr Tudful	6,956	-6.9	2,658	-4.7	4,292	-8.2
Caerffili	18,940	-2.7	7,956	-1.1	10,984	-3.8
Blaenau Gwent	9,533	-3.4	3,850	-2.9	5,679	-3.8
Torfaen	10,162	-3.9	4,096	-2.3	6,057	-5.0
Sir Fynwy	6,144	-3.1	2,915	-2.4	3,219	-3.9
Casnewydd	14,758	-4.5	5,451	-2.2	9,307	-5.8
Caerdydd	32,670	-3.2	10,702	-2.8	21,815	-3.7
Cymru	299,512	-3.1	124,065	-2.4	175,089	-3.6

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

(b) Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys 358 o achosion, lle mae oedran yr hawlydd yn anhysbys


(c) Nid oedd ffigyrau Castell-nedd Port Talbot ar gael ar gyfer mis Mawrth 2016 felly defnyddiwyd amcangyfrif.

4.4 Llwyth Achosion CTRS yn ôl Statws Incwm

Mae Datatank yn darparu gwybodaeth bellach am 'statws incwm' aelwydydd. Mae llwyth achosion wedi'u rhannu yn pum categori gwahanol ar sail amgylchiadau a 'statws pasbort'. Os yw ymgeisydd yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn Seiliedig ar Incwm neu Warant Credyd Pensiwn, mae'n cael ei ddsbarthu fel 'achos â phasbort'. Os nad yw'n derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, yna caiff ei gategoreiddio fel 'achos heb basbort'.

Mae'r ffigyrau'n dangos bod cyfansoddiad y llwyth achosion wedi newid yn gynnil dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae **ffigwr 2** yn dangos newidiadau mewn llwyth achosion rhwng mis Mawrth 2015 - mis Mawrth 2016. Mae'n dangos bod ESA ac achosion heb basbort yn gyfrif am gyfran ychydig yn uwch o'r llwyth achosion yng Nghymru ym mis Mawrth 2016, o'i gymharu â mis Mawrth 2015; Bellach mae Cymhorthdal Incwm, JSA a Chredyd Pensiwn yn cyfrif am gyfran ychydig yn is.

Ffigwr 2: Newidiadau mewn Llwyth Achosion yn ôl Statws Incwm mis Mawrth 2015-mis Mawrth 2016



Ffynhonnell: Datatank Connect

Mae **tabl A3** yn Atodiad A yn darparu ffigyrau gwirioneddol llwyth achosion yn ôl awdurdod lleol ar gyfer mis Mawrth 2016.

Achosion heb basbort oedd y math mwyaf cyffredin o achos CTR. Roedd 92,274 o achosion byw ym mis Mawrth 2016. Mae hyn yn cyfrif am 30.8% o achosion (cynnydd 0.5% o'i gymharu â mis Mawrth 2015).

Yn dilyn yn agos y mae ymgeiswyr CTR sy'n derbyn Credyd Pensiwn. Roedd 84,364 o achosion byw ym mis Mawrth 2016. Mae'r achosion hyn yn cyfrif am 28.2% o'r llwyth achosion (0.5% yn is o'i gymharu â mis Mawrth 2015). Mae hyn yn unol â rhagolygon yr Adran Gwaith a Phensiynau⁵ a oedd yn rhagweld y byddai llwyth achosion pensiynwyr yn gostwng yn 2015-16 oherwydd gostyngiad yn y boblogaeth pensiynwyr yn ogystal â gostyngiad yng nghyfran y pensiynwyr sy'n mynd ymlaen i hawlio Credyd Pensiwn.

Y math nesaf mwyaf cyffredin o fudd-dal â phasbort oedd ESA. Roedd 72,509 o achosion byw ym mis Mawrth 2016. Roeddent yn cyfrif am 24.2% o'r holl achosion CTRS (1.8% yn uwch na 2014-15). Yn nodedig mae'r duedd hon yn mynd yn erbyn rhagolygon yr Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn rhagweld y byddai llwyth achosion ESA yn gostwng yn 2015-16.

Roedd aelwydydd CTRS â phasbort o ganlyniad i dderbyn Cymhorthdal Incwm yn cyfrif am 10.6% (0.5% yn is na mis Mawrth 2015) ac roedd derbynwyr CTRS a oedd yn derbyn JSA yn cyfrif am 6.3% o'r llwyth achosion (0.9% yn is na mis Mawrth 2015).

4.5 Statws Incwm yn ôl Awdurdod Lleol

Mae **tabl 4** yn dangos sut mae'r ganran o dderbynwyr â phasbort a heb basbort yn amrywio yn ôl awdurdod lleol ar gyfer mis Mawrth 2016. Mae'n dwyn sylw at y gwahaniaethau yng nghyfansoddiad llwyth achosion yn ôl awdurdod lleol.

Ym Merthyr Tudful, roedd gan oddeutu 74.4% o'u llwyth achos basbort, o'i gymharu â Sir y Fflint lle roedd gan oddeutu 63.5% o'r llwyth achosion basbort.

Yng Ngwynedd roedd y ganran uchaf o'r llwyth achosion ar Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig) sef 34.6%, ac yng Nghaerdydd roedd y ganran isaf sef 23.6%.

Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o lwyth achosion ar ESA oedd Merthyr Tudful (28.7%), ac roedd y llwyth achosion isaf yn Ynys Môn sef 17.9%.

Yng Nghasnewydd roedd y ganran uchaf o achosion ar Gymhorthdal Incwm (12.7%) ac yng Ngheredigion a Phowys oedd yr isaf (7.1%).

Yn Ynys Môn roedd y ganran uchaf o achosion ar Lwfans Ceisio Gwaith sef 8.4%, ac yn Sir y Fflint roedd yr isaf (3.7%).

Tabl 4: Statws Incwm yn ôl Awdurdod Lleol - mis Mawrth 2016

	<u>(Statws Pasbort)</u>		<u>(Math o Fudd-dal â Phasbort)</u>			
	Heb Basbort	Â Phasbort	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
Ynys Môn	30.5	69.5	8.9	8.4	17.9	34.3
Gwynedd	32.2	67.8	8.0	6.3	19.0	34.6
Conwy	30.1	69.9	8.9	5.4	22.0	33.5
Sir Ddinbych	31.7	68.3	9.8	5.3	22.5	30.7
Sir y Fflint	36.5	63.5	9.9	3.7	20.0	30.0
Wrecsam	34.2	65.8	11.6	4.8	21.0	28.4
Powys	34.8	65.2	7.1	4.0	20.5	33.7
Ceredigion	32.7	67.3	7.1	3.9	24.0	32.3
Sir Benfro	33.0	67.0	9.3	7.1	20.4	30.2
Sir Gaerfyrddin	32.2	67.8	9.0	5.3	23.3	30.3
Abertawe	28.0	72.0	10.7	6.2	27.2	27.9
Castell-nedd Port Talbot	30.4	69.6	11.3	5.2	27.3	25.8
Pen-y-bont ar Ogwr	35.0	65.0	11.4	4.9	23.8	24.9
Bro Morgannwg	32.9	67.1	11.0	6.2	22.6	27.3
Rhondda Cynon Taf	26.6	73.4	12.1	6.7	27.2	27.3
Merthyr Tudful	25.6	74.4	12.2	6.9	28.7	26.5
Caerffili	26.9	73.1	11.0	8.1	25.5	28.6
Blaenau Gwent	29.2	70.8	10.2	8.3	26.4	25.8
Torfaen	33.6	66.4	11.1	5.6	24.1	25.6
Sir Fynwy	36.3	63.7	7.6	4.2	21.6	30.2
Casnewydd	27.7	72.3	12.7	8.3	25.6	25.8
Caerdydd	30.6	69.4	11.9	8.0	26.0	23.6
Cymru	30.8	69.2	10.6	6.3	24.2	28.2

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

4.6 Gostyngiad CTRS Cyfartalog yn ôl Statws Incwm

Mae **tabl 5** yn dangos y gostyngiad wythnosol cyfartalog a dderbyniwyd yn ôl statws incwm ar gyfer mis Mawrth 2016. Y gostyngiad cyfartalog ar gyfer pob derbynnydd oedd £15.90 ym mis Mawrth 2016 (£827 y flwyddyn). Mae hyn wedi cynyddu o £15.35 yr wythnos ym mis Mawrth 2015 (£798 y flwyddyn). Dyma gynnydd o £0.45 yr wythnos (£23.40 y flwyddyn)

Yr awdurdod lleol â'r gostyngiad wythnosol cyfartalog uchaf oedd Sir Fynwy â £18.22 yr wythnos, a'r isaf oedd Sir Benfro â £12.36. Yn rhannol, mae'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud â lefelau treth gyngor cyffredinol ond maent hefyd yn dibynnu ar fandiau treth gyngor yr eiddo lle mae derbynwyr CTRS yn byw. Y gostyngiad cyfartalog yn Sir Benfro yw'r isaf, sy'n adlewyrchu bod gan yr awdurdod y dreth gyngor Band D isaf yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, mae gostyngiadau yn Sir Fynwy'n tueddu i fod yn uwch oherwydd bod yr awdurdod yn cynnwys nifer fawr o dderbynwyr mewn eiddo mewn bandiau uwch.

Roedd gostyngiadau wythnosol cyfartalog yn amrywio yn ôl statws incwm. Roedd achosion heb basbort yn derbyn gostyngiad wythnosol cyfartalog o £13.38, o'i gymharu â £17.02 ar gyfer achosion â phasbort. Mae hyn oherwydd bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o dderbyn gostyngiad rhannol yn hytrach nag un llawn.

Ymhlith y grwpiau â phasbort, y gostyngiad cyfartalog ar gyfer achosion Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig) oedd yr uchaf, sef £17.60 yr wythnos. Yn ogystal â derbyn gostyngiad 100%, mae pensiywyr sy'n derbyn Credyd Pensiwn yn tueddu i fyw mewn eiddo bandiau uwch na grwpiau eraill (felly'n cynyddu'r gostyngiad wythnos cyfartalog ar gyfer y grŵp hwn).

Y gostyngiad ar gyfer Cymhorthdal Incwm oedd y nesaf uchaf, â gostyngiad wythnosol cyfartalog o £16.80, yna achosion ESA a dderbyniodd £16.72. Derbyniodd achosion Lwfans Ceisio Gwaith y gostyngiad wythnosol isaf, â dyfarniad wythnos cyfartalog o £16.00.

Tabl 5: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn ôl Statws Incwm ac Awdurdod Lleol

	Dyfarniad Wythnosol (£)						
	(Cyfan)	(Statws Pasbort)		(Math o Fudd-dal â Phasbort)			
	Cyfan	Heb Basbort	Â Phasbort	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
Ynys Môn	15.37	12.41	16.67	16.07	15.31	16.06	17.48
Gwynedd	16.85	14.19	18.11	17.90	17.18	17.46	18.68
Conwy	15.70	13.16	16.80	16.69	15.42	16.00	17.57
Sir Ddinbych	17.47	14.82	18.70	18.73	17.17	18.15	19.34
Sir y Fflint	15.92	13.52	17.3	17.22	16.69	16.88	17.68
Wrecsam	15.28	12.74	16.60	16.52	16.35	16.13	17.03
Powys	16.24	13.98	17.44	17.57	16.05	16.51	18.14
Ceredigion	16.83	14.48	17.97	17.19	16.88	17.16	18.88
Sir Benfro	12.36	9.97	13.54	13.19	12.32	13.03	14.28
Sir Gaerfyrddin	16.06	13.63	17.21	16.96	15.91	16.83	17.79
Abertawe	15.28	12.79	16.24	15.66	15.29	15.81	17.09
Castell-nedd Port Talbot	17.58	14.61	18.88	18.84	18.15	18.53	19.42
Pen-y-bont ar Ogwr	17.41	14.82	18.80	18.70	17.84	18.50	19.32
Bro Morgannwg	17.14	14.50	18.43	18.15	17.06	18.08	19.15
Rhondda Cynon Taf	16.02	13.41	16.97	16.60	16.21	16.94	17.36
Merthyr Tudful	16.00	12.91	17.06	16.62	16.21	17.19	17.35
Caerffili	13.91	11.35	14.85	14.77	14.29	14.90	15.00
Blaenau Gwent	16.70	13.60	17.97	18.06	17.41	18.12	17.97
Torfaen	15.18	12.50	16.54	16.45	15.92	16.30	16.94
Sir Fynwy	18.22	15.41	19.82	19.61	19.63	19.37	20.23
Casnewydd	13.61	11.41	14.45	14.30	13.78	14.18	15.00
Caerdydd	16.48	14.12	17.52	17.34	16.61	17.22	18.25
Cymru	15.90	13.38	17.02	16.80	16.00	16.72	17.60


(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

4.7 Llwyth Achosion CTRS yn ôl Math o Deulu

Mae **ffigwr 3** yn dangos newidiadau llwyth achos yn ôl math o deulu. Mae'n dwyn sylw at y ffaith mai'r categori mwyaf yw aelwydydd oedolion sengl heb unrhyw ddibynyddion. Roeddent yn cyfrif am 169,376 o achosion ym mis Mawrth 2016. Bu gostyngiad bach (1.1%) mewn llwyth achosion ers mis Mawrth 2015.

Fodd bynnag bu gostyngiadau mwy sylweddol mewn llwyth achosion ar gyfer mathau eraill o deuluoedd. Roedd 57,251 o aelwydydd Rhiant Sengl ym mis Mawrth 2016, sef gostyngiad 2.4% o'i gymharu â mis Mawrth 2015. Roedd 48,964 o aelwydydd yn cynnwys pâr heb unrhyw ddibynyddion, gostyngiad 2.6% o'i gymharu â mis Mawrth 2015. Roedd 27,387 o aelwydydd yn cynnwys pâr â dibynyddion, gostyngiad 5% o'i gymharu â mis Mawrth 2015.

Ffigwr 3: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Math o Deulu, rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2016



Ffynhonnell: Datatank Connect

4.8 Aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol yn ôl statws incwm

Mae **tabl 6** yn dangos newidiadau llwyth achos mewn perthynas ag aelwydydd â phlentyn dibynnol. Mae'n dangos bod o leiaf 84,758 o aelwydydd yn derbyn CTRS ag o leiaf un plentyn dibynnol ym mis Mawrth 2016.

Tabl 6: Aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol yn ôl statws incwm

Statws Incwm	Llwyth achosion byw mis Mawrth 2015	Llwyth achosion byw mis Mawrth 2016 (a)	Newid mewn Llwyth achosion ers mis Mawrth 2015	% Newid ers mis Mawrth 2015
Lwfans Ceisio Gwaith	9033	7723	-1310	-14.5
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	19167	18693	-474	-2.5
Cymhorthdal Incwm	25967	24756	-1211	-4.7
Credyd Pensiwn	1589	1402	-187	-11.8
Heb Basbort	31711	32063	352	1.1
Cyfanswm	87467	84637	-2830	-3.2

(a) Nid oedd ffigyrau ar gael mewn perthynas â Sir y Fflint ym mis Mawrth 16 felly defnyddiwyd eu llwyth achosion ar gyfer mis Rhagfyr 2015 ac ystyrir bod hyn yn amcangyfrif da

Dyma ostyngiad o 3.2% ers mis Mawrth 2015, ychydig bach yn llai na'r gostwng mewn llwyth achosion oedran gweithio (gostyngiad 3.6%). Mae'r tabl yn dangos bod gostyngiad mewn llwyth achosion ym mhob categori ac eithrio achosion heb basbort a welodd cynnydd bach, 352 o achosion.

Mae **tabl A4** yn atodiad A yn darparu dadansoddiad o'r llwyth achosion yn ôl awdurdod lleol ar gyfer mis Mawrth 2016.

4.9 Aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol o dan 5 oed yn ôl statws incwm

Mae **tabl 7** yn dangos newidiadau llwyth achos mewn perthynas ag aelwydydd â phlentyn dibynnol. Mae'n dangos bod 38,331 o aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol o dan 5 ym mis Mawrth 2016. Dyma gynnydd 2.7% o'i gymharu â mis Mawrth 2015.

Mae hyn yn groes i duedd cyffredinol llwyth achosion ar gyfer teuluoedd y nodwyd yn yr adran uchod ei bod yn gostwng gan 3.2%.

Tabl 7: Aelwydydd CTRS â phlentyn dibynnol o dan 5 yn ôl statws incwm

Statws Incwm	Llwyth achosion byw mis Mawrth 2015	Llwyth achosion byw mis Mawrth 2016 (a)	Newid mewn Llwyth achosion ers mis Mawrth 2015	% Newid ers mis Mawrth 2015
	Heb Basbort	11829	12940	1111
Cymhorthdal Incwm	17940	17218	-722	-4.0
Lwfans Ceisio Gwaith	2715	2382	-333	-12.3
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	4647	5544	897	19.3
Credyd Pensiwn	205	247	42	20.5
Cyfanswm	37336	38331	995	2.7


(a) Nid oedd ffigyrau ar gael mewn perthynas â Sir y Fflint ym mis Mawrth 16 felly defnyddiwyd eu llwyth achosion ar gyfer mis Rhagfyr 2015 ac ystyrir bod hyn yn amcangyfrif da

Mae **tabl A5** yn atodiad A yn darparu dadansoddiad o'r llwyth achosion yn ôl Awdurdod Lleol ar gyfer mis Mawrth 2016.

4.10 Llwyth Achosion CTRS yn ôl Band Treth Gyngor

Mae **ffigwr 4** yn darparu trosolwg o'r llwyth achosion CTRS yn ôl band treth gyngor ar lefel Cymru. Mae'n dangos bod 83.9%⁶ o aelwydydd a oedd yn derbyn CTRS yn byw mewn eiddo Bandiau A i C ym mis Mawrth 2016, o'u cymharu â 85.6% ym mis Mawrth 2015.

Ffigwr 4: Canran o'r Llwyth Achosion Cyffredinol yn ôl Bandiau Tai - mis Mawrth 2016



Ffynhonnell: Datatank Connect


Mae **ffigwr 5** yn darparu dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol o'r llwyth achos CTRS yn ôl band treth gyngor ym mis Mawrth 2016. Mae hyn yn dangos yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol. Mae aelwydydd ym Mand A yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r llwyth achosion CTRS (76.8%) ym Mlaenau Gwent, ond 2.9% yn unig yn Sir Fynwy. Ym Mro Morgannwg, mae aelwydydd mewn eiddo Band C yn cyfrif am 37.1% o'r cyfanswm llwyth achosion, ac yn cyfrif am 4% yn unig ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau mawr rhwng sylfeini treth awdurdodau lleol.

Mae **tabl A6** yn Atodiad A yn darparu ffigyrau llwyth achosion gwirioneddol ar lefel awdurdod lleol o'r llwyth achosion CTRS yn ôl band treth gyngor ym mis Mawrth 2016.

Nid yw'r dosbarthiad wedi newid yn sylweddol ers 2014-15.

⁶ Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys aelwydydd ym mand A Anabl

Ffigwr 5: Aelwydydd CTRS yn ôl Band Tai ac Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2016



Ffynhonnell: Datatank Connect

5. Apeliadau

5.1 Tribiwnlys Priso Cymru

Ers cyflwyno CTRS ym mis Ebrill 2013, mae Tribiwnlys Priso Cymru (VTW) wedi bod yn gyfrifol am wrando ar apeliadau sy'n deillio o'r system CTRS. Mae trethdalwyr unigol treth gyngor yn gallu cofrestru apêl ar ôl codi achwyniad yn uniongyrchol â'u hawdurdod lleol yn unig. Cyn cyflwyno CTRS, roedd VTW yn gyfrifol am wrando ar apeliadau mewn perthynas â rhwymedigaeth treth gyngor ac, fel y cyfryw, mewn sefyllfa dda i reoli'r weithdrefn apeliadau mewn perthynas â CTRS. Sefydliad annibynnol yw VTW sy'n delio ag apeliadau ynglŷn ag ardrethi annomestig a threth gyngor yng Nghymru.

Mae **tabl 8** yn dangos deiliant apeliadau a gafwyd gan VTW yn 2015-16. Cafwyd 26 o apeliadau CTRS ar gyfer 2015-16 (i lawr o 39 yn 2014-15) a dygwyd 16 ymlaen o 2014-15. O'r 42 hyn, roedd 33 gwarediad a naw achos sy'n aros a ddygwyd ymlaen i 2016-17.

Tabl 8: Apeliadau Tribiwnlys Priso Cymru 2015-16

	Derbynebaw		Gwarediadau			Yn Aros
	Derbyniwyd yn 2015-16	Dygwyd ymlaen o 2014-15	Wedi setlo cyn gwrandawriad tribiwnlys	Penderfynwyd gan dribiwnlys	Wedi gwrthod?	Achosion a ddygwyd ymlaen i'r cyfnod nesaf
Apeliadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	26	16	6	25	2	9

O'r rheiny a waredwyd, cafodd chwe achos eu setlo cyn yr achosion tribiwnlys. Fel arfer, mae canlyniad yr achosion hyn o blaid yr apelydd oherwydd bod awdurdodau wedi ailystyried eu penderfyniad cyntaf yn dilyn derbyn tystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â hawliad yr apelydd.

Atodiad A:

Ystadegau Ychwanegol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2015-16

Tabl A1: Lefelau Treth Gyngor, 2015-16 (a)

	Treth Gyngor Band D Cyfartalog (£)	Cynnydd mew n Treth Gyngor Band D cyfartalog (%) ers 2014- 15
Ynys Môn	1,296	4.35
Gwynedd	1,430	4.30
Conwy	1,286	4.64
Sir Ddinbych	1,422	3.04
Sir y Fflint	1,301	3.67
Wrecsam	1,276	3.07
Powys	1,287	2.55
Ceredigion	1,300	3.26
Sir Benfro	1,029	2.39
Sir Gaerfyrddin	1,348	3.14
Abertawe	1,342	4.84
Castell-nedd Port Talbot	1,609	4.35
Pen-y-bont ar Ogwr	1,483	4.95
Bro Morgannwg	1,312	4.04
Rhondda Cynon Taf	1,519	3.97
Merthyr Tudful	1,554	4.58
Caerffili	1,215	3.93
Blaenau Gwent	1,635	2.77
Torfaen	1,352	4.48
Sir Fynwy	1,349	4.98
Casnewydd	1,154	4.81
Caerdydd	1,224	4.97
Cymru	1,328	4.08

(a) Ffurflenni Gofyniad Cyllideb (BR) oddi w rth Awurdodau Lleol

Tabl A2: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Awdurdod Lleol, mis Mai 2015 i fis Mawrth 2016 (a)

	(Nifer)										
	May-2015	Jun-2015	Jul-2015	Aug-2015	Sep-2015	Oct-2015	Nov-2015	Dec-2015	Jan-2016	Feb-2016	Mar-2016
Ynys Môn	6,366	6,372	6,372	6,414	6,374	6,396	6,313	6,316	6,301	6,420	6,472
Gwynedd	10,462	10,417	10,461	10,410	10,430	10,394	10,364	10,420	10,425	10,396	10,380
Conwy	11,286	11,278	11,252	11,208	11,129	11,115	11,089	10,964	10,972	11,007	11,080
Sir Ddinbych	10,646	10,625	10,664	10,601	10,549	10,457	10,462	10,478	10,484	10,463	10,461
Sir y Fflint	12,118	12,043	12,018	12,007	12,012	11,960	11,915	11,890	11,843	10,501	11,806
Wrecsam	12,782	12,735	12,647	12,639	12,605	12,569	12,535	12,484	12,448	12,447	12,370
Powys	9,762	9,796	9,824	9,917	9,887	9,836	9,858	9,859	9,807	9,805	9,837
Ceredigion	5,665	5,646	5,629	5,597	5,591	5,564	5,551	5,540	5,548	5,572	5,565
Sir Benfro	11,310	11,276	11,224	11,261	11,228	11,249	11,251	11,256	11,281	11,306	11,270
Sir Gaerfyrddin	17,328	17,381	17,337	17,387	17,246	17,316	17,171	17,169	17,102	17,062	17,126
Abertawe	25,200	25,166	25,055	25,050	24,953	24,825	24,719	24,599	24,529	24,455	24,479
Castell-nedd Port Talbot (b)	18,470	18,464	18,464	18,378	18,378	18,378	18,227	18,227	18,227	18,227	18,095
Pen-y-bont ar Ogwr	14,671	14,808	14,672	14,743	14,638	14,675	14,700	14,586	14,588	14,488	14,508
Bro Morgannwg	10,293	10,307	10,282	10,255	10,239	10,228	10,214	10,173	10,071	10,075	10,108
Rhondda Cynon Taf (c)	27,079	27,079	27,079	27,192	27,209	27,131	27,017	26,994	26,910	26,877	26,792
Merthyr Tudful	7,260	7,268	7,205	7,193	7,130	7,100	7,041	7,021	7,000	6,999	6,956
Caerffili	19,350	19,315	19,271	19,233	19,289	19,174	19,183	19,070	18,971	18,942	18,940
Blaenau Gwent	9,674	9,673	9,697	9,566	9,535	9,529	9,568	9,567	9,571	9,523	9,533
Torfaen	10,438	10,508	10,479	10,478	10,403	10,339	10,338	10,276	10,197	10,200	10,162
Sir Fynwy	6,109	6,262	6,264	6,246	6,238	6,212	6,178	6,183	6,163	6,159	6,144
Casnewydd	15,228	15,244	15,107	15,103	14,998	14,881	14,878	14,809	14,788	14,745	14,758
Caerdydd	33,222	33,398	33,315	33,286	33,226	33,141	32,984	32,842	32,695	32,989	32,670
Cymru	304,719	305,061	304,318	304,164	303,287	302,469	301,556	300,723	299,921	298,658	299,512

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

(b) Nid oedd data cyw ir ar gael ar gyfer misoedd Gorffennaf, Medi, Hydref, Rhagfyr, Ionawr a Chwefror. Yn yr achosion hyn, mae'r ffigwr mw yaf diw eddar (cyw ir) wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y misoedd hyn

(c) Nid oedd data cyw ir ar gael ar gyfer misoedd Mai a Mehefin, felly defnyddiwyd ffigwr Gorffennaf ar gyfer y misoedd hyn

Tabl A3: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Statws Incwm, mis Mawrth 2016 (a)

	(Cyfan)	(Statws Pasbort)		(Math o Fudd-dal â Phasbort)			
	Cyfanswm	Heb Basbort	Â Phasbort	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
Ynys Môn	6,472	1,977	4,495	574	545	1,158	2218
Gwynedd	10,380	3,343	7,037	828	654	1,968	3587
Conwy	11,080	3,340	7,740	986	603	2,436	3715
Sir Ddinbych	10,461	3,313	7,148	1,023	556	2,357	3212
Sir y Fflint	11,806	4,311	7,495	1,163	432	2,361	3539
Wrecsam	12,370	4,230	8,140	1,440	592	2,593	3515
Powys	9,837	3,420	6,417	698	389	2,014	3316
Ceredigion	5,565	1,817	3,748	396	218	1,334	1800
Sir Benfro	11,270	3,723	7,547	1,051	799	2,296	3401
Sir Gaerfyrddin	17,126	5,509	11,617	1,543	900	3,991	5183
Abertawe	24,479	6,848	17,631	2,630	1,509	6,657	6835
Castell-nedd Port Talbot	18,095	5,500	12,595	2,047	946	4,937	4665
Pen-y-bont ar Ogwr	14,508	5,081	9,427	1,656	711	3,447	3613
Bro Morgannwg	10,108	3,325	6,783	1,116	628	2,284	2755
Rhondda Cynon Taf	26,792	7,140	19,652	3,232	1,802	7,293	7325
Merthyr Tudful	6,956	1,783	5,173	852	481	1,996	1844
Caerffili	18,940	5,092	13,848	2,076	1,534	4,826	5412
Blaenau Gwent	9,533	2,781	6,752	973	795	2,520	2464
Torfaen	10,162	3,418	6,744	1,126	565	2,449	2604
Sir Fynwy	6,144	2,231	3,913	469	258	1,330	1856
Casnewydd	14,758	4,087	10,671	1,873	1,219	3,771	3808
Caerdydd	32,670	10,005	22,665	3,875	2,602	8,491	7697
Cymru	299,512	92,274	207,238	31,627	18,738	72,509	84364

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

Tabl A4: Aelwydydd â phlentyn dibynnol yn ôl Statws Incwm ac Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2016 (a)

	(Cyfan)	(Math o Fudd-dal â Phasbort)				
	Pawb	Heb Basbort	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
Ynys Môn	1611	660	452	198	270	31
Gwynedd	2401	1033	658	236	435	39
Conwy	2672	1088	803	215	527	39
Sir Ddinbych	2868	1178	820	221	594	55
Sir y Fflint (b)	3447	1490	978	202	719	58
Wrecsam	3630	1459	1165	277	681	48
Powys	2153	1015	553	130	415	40
Ceredigion	1286	596	307	72	283	28
Sir Benfro	3095	1310	839	305	591	50
Sir Gaerfyrddin	4373	1716	1173	338	1094	52
Abertawe	6471	2320	1978	557	1523	93
Castell-nedd Port Talbot	4984	1784	1487	385	1244	84
Pen-y-bont ar Ogwr	4344	1783	1284	314	898	65
Bro Morgannwg	3148	1363	893	247	604	41
Rhondda Cynon Taf	7495	2177	2501	701	1993	123
Merthyr Tudful	2095	580	678	234	561	42
Caerffili	5269	1540	1547	752	1339	91
Blaenau Gwent	2521	743	726	336	672	44
Torfaen	2965	1153	849	250	661	52
Sir Fynwy	1513	728	362	103	303	17
Casnewydd	4727	1586	1522	533	1005	81
Caerdydd	11569	4761	3181	1117	2281	229
Cymru	84637	32063	24756	7723	18693	1402

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

(b) Nid oedd ffigyrau mewn perthynas â JSA, ESA, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn ar gyfer ar gyfer mis Mawrth 16 felly defnyddiwyd amcangyfrif a seiliwyd ar ffigyrau mis Rhagfyr 15.

Tabl A5: Aelwydydd â phlentyn dibynnol o dan 5 yn ôl Statws Incwm ac Awdurdod Lleol, mis Mawrth 2016 (a)

	(Cyfan)	(Math o Fudd-dal â Phasbort)				
	Pawb	Heb Basbort	Cymhorthdal Incwm	Lwfans Ceisio Gwaith	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig)
Ynys Môn	668	233	311	57	66	1
Gwynedd	991	371	451	75	91	3
Conwy	1058	402	481	55	118	2
Sir Ddinbych	1239	464	527	66	175	7
Sir y Fflint (b)	1330	531	606	46	138	9
Wrecsam	1472	548	695	61	159	9
Powys	795	310	360	34	88	3
Ceredigion	547	226	218	22	78	3
Sir Benfro	1299	481	573	88	150	7
Sir Gaerfyrddin	1801	607	799	82	304	9
Abertawe	2791	865	1385	147	388	6
Castell-nedd Port Talbot	4984	1784	1487	385	1244	84
Pen-y-bont ar Ogwr	1757	594	826	91	241	5
Bro Morgannwg	1354	490	620	67	168	9
Rhondda Cynon Taf	3220	732	1759	196	519	14
Merthyr Tudful	945	201	506	66	166	6
Caerffili	2071	550	990	200	323	8
Blaenau Gwent	1066	242	535	107	177	5
Torfaen	1235	420	576	78	155	6
Sir Fynwy	587	241	240	30	74	2
Casnewydd	1938	622	982	134	193	7
Caerdydd	5183	2026	2291	295	529	42
Cymru	38331	12940	17218	2382	5544	247

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

(b) Nid oedd ffigyrau mewn perthynas â JSA, ESA, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn ar gyfer ar gyfer mis Mawrth 16 felly defnyddiwyd amcangyfrif a seiliwyd ar ffigyrau mis Rhagfyr 15.

Tabl A6: Llwyth Achosion CTRS yn ôl Band Treth Gyngor, mis Mawrth 2016 (a)

	A-	A	B	C	D	E	F	G	H	I	Cyfanswm
Ynys Môn	9	2060	2067	1137	715	354	107	18	2	0	6469
Gwynedd	0	2728	4104	2003	868	506	146	21	3	1	10380
Conwy	0	2519	2767	3527	1422	589	202	44	9	1	11080
Sir Ddinbych	0	2032	2952	3697	1117	424	169	64	5	1	10461
Sir y Fflint	0	2018	3242	4128	1286	725	312	83	7	5	11806
Wrecsam	3	2157	4654	3662	1075	524	211	61	18	3	12368
Powys	4	2111	2802	2329	1128	838	479	128	9	5	9833
Ceredigion	0	504	1740	1533	917	701	140	29	1	0	5565
Sir Benfro	2	2683	3058	3240	1203	807	223	40	10	1	11267
Sir Gaerfyrddin	13	3896	7607	2977	1426	880	275	49	1	0	17124
Abertawe	12	8413	8970	4046	1867	756	318	74	15	5	24476
Castell-nedd Port Talbot	0	6673	8863	1610	626	247	62	13	1	0	18095
Pen-y-bont ar Ogwr	8	4904	4865	2814	1157	522	185	41	3	2	14501
Bro Morgannwg	0	585	2802	3753	1730	753	326	126	26	7	10108
Rhondda Cynon Taf	0	17536	5737	2501	644	248	99	24	3	0	26792
Merthyr Tudful	18	5292	1206	241	142	42	14	1	-	0	6956
Caerffili	0	6826	7520	3354	897	238	84	17	2	2	18940
Blaenau Gwent	23	7423	1587	315	129	48	8	12	-	0	9545
Torfaen	10	3016	4164	2411	313	156	71	-	-	0	10141
Sir Fynwy	0	172	1689	1796	1480	508	293	156	45	5	6144
Casnewydd	0	3542	5436	3827	1291	446	159	51	5	0	14757
Caerdydd	6	2504	8629	10308	6862	3049	1029	233	39	10	32669
Cymru (b)	108	89594	96461	65209	28295	13361	4912	1285	204	48	299477

(a) Ffynhonnell: Datatank Connect

(b) Dosbarthwyd 35 categori ym mis Mawrth 2016 fel rhai 'heb fand'